Hawdd ei Ddeall

# Gweithio'n well gyda'n gilydd yng Nghymru

## Cyfraith newydd yng Nghymru am gydweithio'n well a gwario arian yn gyfrifol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**'.

**Awst 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn ysgrifennu **glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalennau 25**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru

**E-bost:** socialpartnership@llyw.cymru

**Ffôn:** 0300 0604400

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad....................................................................................4**

**Pam y mae ar Gymru angen y ddeddf hon..................................8**

**Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol........................................15**

**Y Bil a Deddf Llesiant Cendlaethau'r Dyfodol (Cymru)...........16**

**Dyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol.................................17**

**Gwaith Teg...................................................................................18**

**Caffaeliad cyfrifol........................................................................19**

**Y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni.........................................22**

**Pam y buasai'r Bil yn dda ar gyfer Cymru..................................23**

**Geiriau anodd...............................................................................25**

# Cyflwyniad




Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â deddf newydd yr hoffen ni ddod â hi i Gymru.




Mae'n cael ei galw'n **Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).** I fod yn fyr byddwn yn ei galw'n y **Bil** yn y ddogfen hon.



Mae'r **Bil** ynghylch mudiadau yn gweithio gyda'i gilydd yng Nghymru i gyflenwi **gwasanaethau cyhoeddus.**



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn wasanaethau pwysig y mae ar bawb eu hangen, fel gofal iechyd, cludiant, ysgolion a chasglu sbwriel. Mae'r llywodraeth yn cadw golwg arnyn nhw ac mae arian cyhoeddus yn talu amdanyn nhw.



Mae'r **Bil** hefyd ynghylch y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwario eu harian i dalu am nwyddau a gwasanaethau.



Mae'n rhaid iddyn nhw gael eu rhedeg mewn ffordd deg a chyfrifol. Ac mae'n rhaid talu amdanyn nhw mewn ffordd deg a chyfrifol.



Dylen nhw helpu i wella bywydau pobl.



Mae'n rhaid penderfynu pwy fydd yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd deg. A meddwl am yr effaith y mae hyn yn ei gael ar lesiant pobl.

**Mae ar y Bil eisiau:**



- Cychwyn grŵp sy'n cael ei alw'n **Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol**.



- I Weinidogion Cymru siarad â phartneriaid ar **Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** wrth gwrdd â'u nodau llesiant.



- I **gyrff cyhoeddus** wneud yn siŵr eu bod yn gyfrifol ynghylch caffaeliad.




Mae **cyrff cyhoeddus** yn fudiadau sy'n rhedeg **gwasanaethau cyhoeddus**. Er enghraifft, y GIG neu'r cyngor lleol.



- I **gyrff cyhoeddus** wneud yn siŵr eu bod yn gyfrifol ynghylch **caffaeliad**.




Mae **caffaeliad** yn meddwl talu mudiadau eraill i ddarparu pethau sydd eu hangen arnoch chi. Er enghraifft, gallai fod yn gyngor lleol yn talu am ddodrefn swyddfa, neu i fusnes redeg gwasanaethau gofal cymdeithasol.



- I **gyrff cyhoeddus** ysgrifennu cynllun ar gyfer **caffaeliad.**



- I **gyrff cyhoeddus** edrych a yw'r mudiadau maen nhw'n gweithio gyda nhw yn cwrdd â'u nodau ac yn gweithio'n gyfrifol.




- I **gyrff cyhoeddus** a Gweinidogion Cymru adrodd am eu gwaith sy'n ymwneud â **chaffaeliad**.

# Pam y mae ar Gymru angen y ddeddf hon



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer y cyhoedd ac yn cael ei dalu amdano gan y cyhoedd yn cael ei wneud mewn ffordd deg a chyfrifol.



Bydd y **Bil** yn gweithio'n dda gyda deddfau eraill yng Nghymru. Er enghraifft:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Mae'r **Bil** hefyd ynglŷn â:



- **phartneriaeth gymdeithasol** dda.

> Mae **partneriaeth gymdeithasol** yn weithwyr a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau.




- gosod nodau ynghylch ffyrdd o weithio'n dda gyda'i gilydd



- a sut i helpu i wella llesiant Cymru.



Gall gweithio gyda'i gilydd helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn cael cymryd rhan ac yn cael dweud eu barn.




Mae pandemig y coronafeirws wedi bod yn anodd ac yn heriol iawn. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i fudiadau weithio'n well gyda'i gilydd.



Byddai **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol** yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r ffyrdd gorau y gall **partneriaethau cymdeithasol** weithio.



Byddai ganddo hefyd wefan sydd â gwybodaeth ddefnyddiol arno.



Mae'n wirioneddol bwysig i weithwyr mewn **gwasanaethau cyhoeddus** fod yn rhan o'r gwaith hwn. Nid dim ond y bobl sydd mewn gofal.



Mae gan weithwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn yw gwasanaethau mewn gwirionedd. Dylen nhw gymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau.



Mae hyn yn barod yn digwydd mewn llawer o wledydd yn Ewrop.



Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn **genedl Gwaith Teg**.

Mae **Gwaith Teg** yn waith sydd yn:

- cwrdd â hawliau gweithwyr
- cefnogi eu llesiant
- ac yn rhoi llais iddyn nhw.

Mae hyn yn meddwl y byddai ein lleoedd gwaith yn cynnig i weithwyr bethau fel:



- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu mewn gwaith.



- Y gallu i gael dweud eu barn a chael pobl i wrando arnyn nhw.




- Mwy o sicrwydd mewn tâl ac oriau gweithio – mae hyn yn meddwl nad yw gweithwyr yn debygol o golli eu tâl na'u horiau.



Mae'r pethau hyn yn bwysig ar gyfer gwneud Cymru yn deg ac yn gyfartal.



Gallwn helpu i wneud newidiadau i rai gweithwyr, ond nid i eraill.



Er enghraifft, mae gennym ni lai o lais dros:

- y gweithwyr mewn busnesau preifat



- a gweithwyr mewn gweithleoedd sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU.



Mae gennym ni lais am y swyddi sy'n cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru. Mae llawer o swyddi **gwasanaethau cyhoeddus** yn cael eu goruchwylio gennym ni.




Mae **caffaeliad** yn rhan bwysig iawn o wneud yn siŵr bod gennym ni **wasanaethau cyhoeddus** da.



Mae'n rhaid i **gaffaeliad** gael ei wneud mewn ffordd ofalus a chyfrifol.

Mae'n rhaid i ni feddwl am y ffordd rydyn ni'n prynu ac yn trefnu gwasanaethau, sy'n effeithio ar bethau fel:



- ein cymunedau



- ein hamgylchedd



- a'r **economi**.

> Mae'r **economi** yn ymwneud â'r ffordd y mae gwlad yn defnyddio ei harian, ei thir a'i phobl i wneud, i ddefnyddio, i brynu ac i werthu nwyddau a gwasanaethau.



Er enghraifft, gallwn geisio gwneud yn siŵr bod yr arian rydyn ni'n ei wario yn helpu ein cymunedau a'n hamgylchedd.

Mae llawer o ffyrdd y gallwn ni wella **caffaeliad**. Er enghraifft:



- Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr **nad** yw mudiadau yn **torri corneli** wrth brynu pethau a darparu eu gwasanaethau. Nid y pethau rhataf yw'r gorau bob amser.



- Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n achosi niwed i bethau fel ein cymunedau a'n hamgylchedd.



- Mae arnon ni angen gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu gwybodaeth. Ac mae arnon ni angen adroddiadau ar y ffordd y mae mudiadau yn gwneud pethau mewn ffordd gyfrifol.

# Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol



Mae **Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** yn grŵp sy'n cynnwys llywodraeth, cyflogwyr a gweithwyr. Byddan nhw'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar wahanol faterion.



Bydd y gweithwyr ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn cael eu cynrychioli'n bennaf gan rywun o **undeb llafur**.

Mae **undeb llafur** yn grŵp sy'n ceisio amddiffyn hawliau gweithwyr.



Byddai **Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** yn gyngor cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.




Byddai **Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** yn cael ei gadeirio gan Brif Weinidog Cymru.



Byddai'n rhoi gwybodaeth a chyngor am bethau yn y **Bil**.

# Y Bil a Deddf Llesiant Cendlaethau'r Dyfodol (Cymru)



Mae gan y **Bil** lawer yn gyffredin â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn edrych ar lesiant Cymru mewn gwahanol feysydd, fel:



- Yr **economi**
- Yr amgylchedd
- Dyfodol Cymru





Mae rhestr o nodau llesiant yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.



Mae'n rhaid i **gyrff cyhoeddus** weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn. Ac mae'n rhaid iddyn nhw osod eu nodau llesiant eu hunain.

# Dyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol




Byddai **cyrff cyhoeddus** yn rhoi adroddiad i **Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** bob blwyddyn.



Byddan nhw'n adrodd sut y maen nhw wedi gweithio mewn **partneriaeth gymdeithasol** wrth osod a gwneud penderfyniadau ynghylch cwrdd â'u nodau llesiant.



Bydd ar Weinidogion Cymru angen siarad â **Chyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol** hefyd am eu nodau llesiant.

# Gwaith Teg




Yn 2019 cafodd adroddiad ei ysgrifennu ar ein cyfer gan Gomisiwn Gwaith Teg. Mae'n cael ei alw'n adroddiad **Gwaith Teg Cymru**.




Roedd ynglŷn â llesiant gweithwyr.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod  cyflogwyr yn gofalu am lesiant eu gweithwyr.



Er enghraifft, trwy wneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu talu'n deg.

# Caffaeliad cyfrifol



Mae o gwmpas saith biliwn punt yn cael ei wario yng Nghymru ar wasanaethau a nwyddau trwy **gaffaeliad**.




Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gwneud deddf newydd am **gaffaeliad**, y bydd yn rhaid i Gymru hefyd ei dilyn. Mae'n cael ei galw'n **Fil Diwygio Caffaeliad**.



Mae'r **Bil Diwygio Caffaeliad** yn ymwneud mwy â'r broses y mae'n rhaid ei dilyn mewn **caffaeliad** cyhoeddus.



Mae **Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffaeliad Cyhoeddus (Cymru)** yn ymwneud mwy â gwneud **caffaeliad** mewn ffordd gyfrifol.




Mae **pecyn cymorth Budd i'r Gymuned** yn enghraifft o **gaffaeliad** cyfrifol yng Nghymru.



Mae'n edrych sut y gall cymunedau yng Nghymru gael mantais o **gaffaeliad**. Er enghraifft, trwy greu swyddi newy8dd.



Mae **gwaith teg** hefyd wedi bod yn nod bwysig mewn **caffaeliad** yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



Bydd ar **gyrff cyhoeddus** a mudiadau sy'n ymwneud â **chaffaeliad** angen dangos sut y maen nhw'n gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi'r meysydd hyn o fywyd Cymreig:



- Cymdeithasol – sut rydyn ni i gyd yn byw, yn gweithio ac yn mwynhau bywyd gyda'n gilydd



- **Economi**



- Amgylchedd



- Diwylliant – mae hyn yn ymwneud â'n syniadau, ein traddodiadau a'n ffyrdd o fyw.




Mae'r **Bil** yn dweud hefyd bod angen **strategaeth** **caffaeliad**. Mae **strategaeth** yn gynllun mawr; bydd yn dweud beth sy'n rhaid ei wneud i **gaffaeliad** redeg yn dda.



Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod **cyrff** **cyhoeddus** yn gweithio yn yr un ffyrdd pan ddaw hi'n fater o **gaffaeliad**.

# Y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Fe ofynnon ni i fudiadau a phobl roi eu barn i ni am y **Bil**. Dyma beth roedden nhw'n ei feddwl:




- Roedd llawer o bobl yn meddwl bod y ddeddf newydd hon yn bwysig.



- Roedd nifer o bobl yn meddwl y dylai mwy o **gyrff cyhoeddus** orfod dilyn y ddeddf.



- Roedd llawer o gefnogaeth i'r syniadau am **waith teg**.




- Roedd cefnogaeth ar gyfer cael **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**. Ond roedd rhai pobl yn meddwl y buasai'n bwysig cael mwy o bobl i gymryd rhan.

# Pam y buasai'r Bil yn dda ar gyfer Cymru

Dyma rai o'r prif bethau y buasai'r Bil yn helpu i'w cyflawni:



- Buasai **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol** yn helpu i roi cyngor da i Weinidogion Cymru.



- Buasai hyn yn help i wella **gwasanaethau cyhoeddus** a llesiant yng Nghymru.



- Buasai'r **Cyngor** yn darparu arweiniad  ar draws Cymru trwy ddarparu esiampl dda.



- Buasai gweithwyr yn cymryd mwy o ran mewn gosod nodau llesiant.



- Byddai'n helpu **cyrff cyhoeddus** i wneud pethau mewn ffordd gyfrifol.



- Bydd yn helpu **cyrff cyhoeddus** i feddwl mwy am bwysigrwydd **gwaith teg**.

# Geiriau anodd

## Caffaeliad

Mae caffaeliad yn meddwl talu mudiadau eraill i ddarparu pethau sydd eu hangen arnoch chi. Er enghraifft, gallai fod yn gyngor lleol yn talu am ddodrefn swyddfa, neu i fusnes redeg gwasanaethau gofal cymdeithasol.

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn fudiadau sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, y GIG neu'r cyngor lleol.

## Economi

Mae'r economi yn ymwneud â'r ffordd y mae gwlad yn defnyddio ei harian, ei thir a'i phobl i wneud, i ddefnyddio, i brynu ac i werthu nwyddau a gwasanaethau.

## Gwaith teg

Mae hwn yn waith sy'n:

cwrdd â hawliau gweithwyr

cefnogi eu llesiant

ac yn rhoi llais iddyn nhw.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau pwysig y mae ar bawb eu hangen, fel gofal iechyd, cludiant, ysgolion a chasglu sbwriel. Mae'r llywodraeth yn cadw golwg arnyn nhw ac mae arian cyhoeddus yn talu amdanyn nhw.

## Partneriaeth Gymdeithasol

Mae partneriaeth gymdeithasol yn weithwyr a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau cyffredinol.

## Undeb llafur

Mae hwn yn grŵp sy'n ceisio amddiffyn hawliau gweithwyr